Carl Sargeant AC / AM
Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol
Minister for Natural Resources

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref MA-L CS 0228 15

Alun Ffred Jones AC
Cadeirydd Pwyllgor yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

10 Rhagfyr 2015

Annwyl Alun Ffred

Diolch ichi unwaith eto am ystyried Bil yr Amgylchedd (Cymru) yn ystod Cyfnod 2.

Yn ystod gweithrediadau Cyfnod 2 ar 26 Tachwedd, fe ymrwymais i roi rhagor o wybodaeth i chi ar yr hyn rwy'n rhagweld fydd yn cael ei gynnwys yn y datganiad terfynol ar Gyllidebau Carbon.

Fel rhan o Fil yr Amgylchedd, mae'n rhaid i Weinidogion Cymru gyflwyno datganiad terfynol gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru am bob cyfnod cyllidol o 5 mlynedd o fewn dwy flynedd o flwyddyn olaf y cyfnod cyllidebol.

Mae'n rhaid i'r datganiad terfynol ynghylch nwyon tŷ gwydr gynnwys cyfanswm y nwyon, ar gyfer pob nwy, sy'n cael eu hallyrru a'r nwyon sy'n cael eu dal yng Nghymru ac allyriadau net Cymru ar gyfer y cyfnod cyllidebol. Mae'n rhaid i hyn gynnwys manylion nwyon allyriadau tŷ gwydr o ffynonellau yng Nghymru ac unrhyw drefniadau i gael gwared ar y nwyon hyn oherwydd defnydd tir neu newidiadau yn y ffordd y mae tir yn cael ei ddefnyddio, yn ogystal â chan unrhyw weithgareddau sy'n cael eu cynnal yn fforestydd Cymru. Gall yr wybodaeth hefyd gynnwys allyriadau gan weithgareddau hedfan rhyngwladol a llongau os defnyddir y pŵer sydd o dan adran 35.

Bydd hefyd yn cynnwys cyfanswm yr unedau carbon sydd wedi cael eu credydu neu eu debydu o gyfrif allyriadau net Cymru am y cyfnod ac yn rhoi manylion ynghylch nifer a math yr unedau hynny hefyd. Felly, bydd hyn yn cynnwys gwybodaeth am fasnachu unrhyw unedau carbon mewn cynlluniau fel Cynllun Masnachu Allyriadau'r Undeb Ewropeaidd.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0300 0603300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0300 0604400
Correspondence.Carl.Sargeant@wales.gsi.gov.uk

Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%) paper

Printed on 100% recycled

Mae'n rhaid iddo hefyd nodi cyfanswm terfynol allyriadau net Cymru am y cyfnod ac a yw Gweinidogion Cymru wedi penderfynu cario swm yn ôl neu ymlaen o dan adran 40 o'r Bil er mwyn gallu cynyddu neu leihau'r gyllideb garbon ar gyfer y cyfnod ac os felly, cario'r swm yn ôl neu ymlaen.

Mae'n rhaid i'r datganiad gynnwys swm derfynol y gyllideb garbon am y cyfnod, boed y gyllideb garbon am y cyfnod wedi cael ei bodloni ac unrhyw resymau pam bod y gyllideb garbon wedi cael ei bodloni neu pam nad yw wedi cael ei bodloni. Yn fwy na dim, mae'n rhaid iddo gynnwys asesiad Gweinidogion Cymru o'r graddau y mae eu cynigion a'u polisïau ar gyfer bodloni'r gyllideb garbon am y cyfnod wedi cael ei chyflawni.

Yn olaf, fe addewais yn ystod y trafodaethau ynghylch Cyfnod 2 i ystyried ymhellach nifer o ddiwygiadau y gwnaeth aelodau'r Pwyllgor eu cyflwyno yn ystod Cyfnod 2. Cyn symud ymlaen at Gyfnod 3, byddaf yn gweithio â'r aelodau i gyflwyno'r diwygiadau er mwyn eu hystyried.

Gobeithio yn fawr bydd yr wybodaeth hon yn ddefnyddiol i chi.

Yn gywir,

Carl Sargeant AC / AM
Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol
Minister for Natural Resources